# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **08:30 – 08:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Aled Elwyn Jones, Clerc Eweithdrefnau** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

### 2(i) Cofnodion preifat drafft

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

### 2(ii) Cofnodion cyhoeddus drafft

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefn busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y ddadl fer ddydd Mercher.

3(ii) **Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i leihau'r amser a neilltuir i'r eitem o fusnes a ganlyn o 60 munud i 30 munud:

**Dydd Mercher 16 Tachwedd 2011**

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012/13

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3(iv) **Dadleuon gan Aelodau Unigol**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar ei ddull o ddethol ac ymdrin â Dadleuon gan Aelodau Unigol yn y dyfodol. Ynghyd â'r gofyniad bod yn rhaid i gynigion gael cefnogaeth Aelodau o leiaf tair plaid, cytunodd y Rheolwyr Busnes:

(i) y bydd y pwyllgor yn dethol cynigion a fydd yn darparu cydbwysedd o'r nodweddion a ganlyn dros amser:

  - cynigion sy'n codi materion lleol neu ranbarthol penodol neu faterion o bolisi cenedlaethol mewn cyd-destun lleol neu ranbarthol;
  - cynigion sy'n canolbwyntio ar faterion o arwyddocâd a pherthnasedd penodol ar y pryd neu sy'n debygol o ddenu sylw'r cyhoedd;
  - cynigion sy'n debygol o arwain at ddadl egnïol yn y Siambr, gyda nifer fawr o Aelodau'n cymryd rhan;
  - cynigion lle nad yw barn yr Aelodau'n rhannu'n amlwg ar hyd ffiniau pleidiol;
  - cynigion sy'n ychwanegu at amrywiaeth y ddadl yn y Siambr;
  - cynigion a gaiff lawer o gefnogaeth gan Aelodau. Er nad hwn fyddai'r prif ffactor, gallai'r cynnig fod yn flaenoriaeth uwch;

(ii) ni ddylid ystyried Dadleuon gan Aelodau Unigol fel ffordd o gyflwyno deddfwriaeth ac felly mae'n annhebygol y caiff cynigion sy'n galw am ddeddfwriaeth newydd eu dethol gan y Pwyllgor Busnes i'w trafod yn ystod y slotiau hyn;

(iii) rhaid i Aelodau arwain y ddadl ar y cynnig fel y'i cyflwynwyd, oni fydd amgylchiadau eithriadol yn codi er mwyn sicrhau na thanseilir proses ddethol y Pwyllgor Busnes; a

(iv) y dylai'r slot nesaf fod ar 30 Tachwedd 2011; bydd y Swyddfa Gyflwyno'n rhoi gwybod i'r Aelodau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried a ddylid cynnwys cyfnodau rheolaidd o amser yn amserlen y Cyfarfod Llawn ar gyfer Dadleuon gan Aelodau Unigol yn y Flwyddyn Newydd.

## 4. Rheolau Sefydlog

### 4(i) **Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad**

Trafododd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â gorchmynion adran 109 a chytunodd ar yr adroddiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod gan y Cynulliad ddydd Mercher 16 Tachwedd 2011.